**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13 Chwefror 2017**

# Y DIWEDDARAF AM LIFOGYDD

**Adroddiad gan Gary Brandrick, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa o ran darparu adnoddau ar gyfer llifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr.

## Cefndir

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Rhagfyr 2016, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â gosod dyletswydd statudol ar yr Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr. Cafwyd cadarnhad fod yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi cyrraedd Llywodraeth Cymru ond ni chafwyd adborth ffurfiol hyd yma.

3 I gynnal y galluoedd presennol o ran adnoddau ar gyfer ymateb i lifogydd ac achub o ddŵr, yn ogystal â'r gofyn ychwanegol am adnoddau a ganfuwyd drwy brofiad mewn digwyddiadau mawr mewn llifogydd, mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cydweithio i baratoi a chyflwyno achosion busnes i gael cymorth cyllid. Cyflwynwyd y rhain i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016.

## Gwybodaeth

4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achosion busnes, ac fe fydd yn darparu cyllid gwerth cyfanswm o £1.78 miliwn i'r GTAau yng Nghymru dros y ddwy flynedd ariannol nesaf (2016-17 a 2017–18) ar gyfer llifogydd ac achub o ddŵr. Cymeradwywyd £780k i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol bresennol (2016-17).

5 Cyfalaf yn bennaf yw'r cyllid, a chaiff ei ddefnyddio i ychwanegu at, ac adnewyddu, eitemau pwysig a gwerthfawr, fel cychod, injanau a cherbydau.

6 Fel y cadarnhawyd yn yr adroddiad i'r Awdurdod a gyflwynwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn disgwyl y bydd angen cael rhai newydd yn lle'r rhan fwyaf o'i eitemau gwerthfawr cyn pen 10 mlynedd. Fodd bynnag, yr oedd GTGAC yn gweld, o'i brofiad mewn digwyddiadau mawr mewn llifogydd yn ddiweddar, fod angen uned HVP (Pwmp Cyfaint Mawr - *High Volume Pump).*

7 Archebwyd uned HVP cyflawn, sy'n cynnwys y pwmp, podiau cyfarpar a phrif gerbyd symud, gan ddefnyddio'r cyllid y cymeradwywyd ei ddefnyddio yn 2016-17.

8 Mae adolygiad ar y gweill o leoliad y peiriannau arbennig yn GTAGC ar sail gwybodaeth esblygol am risg, a rhoddir cadarnhad o leoliad yr uned HVP ychwanegol maes o law.

## Argymhellion

9 Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.